# Gwahoddir ceisiadau am rôl Cadeirydd Grŵp Llywio Gweinyddwyr y Cynllun

## Contents

Hysbyseb am Gadeirydd ar gyfer Grŵp Llywio Gweinyddwyr y Cynllun ................................ 3
Beth yw Grŵp Llywio Gweinyddwr y Cynllun? ........................................................ 3
Faint o amser rydyn ni'n disgwyl i chi ei gynnig? ................................................. 4
Sgiliau a Phrofiad Cadeirydd y Grŵp Llywio ........................................................ 4
Gwybodaeth am y rôl a'r broses ymgeisio ........................................................... 5
Proses ymgeisio a dethol ..................................................................................... 6
Gwybodaeth ychwanegol i ymgeiswyr ................................................................... 8

## Hysbyseb am Gadeirydd ar gyfer Grŵp Llywio Gweinyddwyr y Cynllun

Rydym wrth ein bodd yn cyhoeddi ein bod bellach yn croesawu datganiadau o ddiddordeb (EOI) ar gyfer penodiad rôl Cadeirydd Grŵp Llywio Gweinyddwr y Cynllun (y Grŵp Llywio) ar gyfer Cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig y DU ar gyfer Pecynnu (pEPR).

Mae pEPR yn gynllun ar y cyd rhwng llywodraethau pedair gwlad y DU - Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, a lansiwyd ym mis Ionawr 2025. Nod y Cynllun yw lleihau faint o ddeunydd pacio a ddefnyddir, cynyddu cyfraddau ailgylchu cyffredinol, a rhoi cymhellion i brosesau mwy effeithlon ac effeithiol drwy gydol cylch bywyd rheoli gwastraff pecynnu drwy annog newid ymddygiad eang ar draws y pedair gwlad.

## Beth yw Grŵp Llywio Gweinyddwr y Cynllun?

Mae'r Grŵp Llywio yn dwyn ynghyd unigolion talentog ar draws y gadwyn werth pecynnu sy'n angerddol am ailgylchu a'r amgylchedd, i wneud argymhellion i Bwyllgor Gweithredol Gweinyddwr y Cynllun (SA ExCo) ar swyddogaethau gweithredol Gweinyddwr y Cynllun, a'u cefnogi i:

- cyflwyno system sy'n creu'r manteision amgylcheddol mwyaf posibl drwy rannu gwybodaeth a chydweithio; a
- sicrhau'r effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd mwyaf posibl i'r system gasglu a phecynnu.

Yn y rôl hon, byddwch yn rhan o un o ddiwygiadau amgylcheddol pwysicaf a mwyaf pwerus ein hoes: gwneud cyfraniad uniongyrchol at gyflawni datgarboneiddio a sero net erbyn 2050.

Yn unol ag arfer gorau rhyngwladol ar gyfer Cynlluniau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig (EPR), bydd y Grŵp Llywio yn cael ei arwain gan gynhyrchwyr. Dyma gyfansoddiad y seddi ar y Grŵp Llywio:

Bydd y Grŵp Llywio yn cynnwys 10 unigolyn o sefydliadau cynhyrchwyr a chynrychiolwyr cymdeithasau masnach (1 sedd ddynodedig ar gyfer y sector bwyd ac 1 sedd ddynodedig ar gyfer gweithgynhyrchu deunydd pacio) ac 11 aelod arall, yn cynrychioli Awdurdodau Lleol (ALlau) ym mhob un o'r pedair gwlad, sefydliadau rheoli gwastraff, Sefydliadau Anllywodraethol (NGO) amgylcheddol, cynlluniau cydymffurfio, a chadeirydd annibynnol.




One representative of each of the four UK nations responsible for the pEPR Scheme plus the Chief Executive is required to attend the Steering Group for meetings to be quorate, however these representatives are not formally within the membership and join Steering Group meetings within the nature of their full time role.

## Faint o amser rydyn ni'n disgwyl i chi ei gynnig?

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n gallu gwirfoddoli'r ymrwymiad amser amcangyfrifedig canlynol:

- O leiaf un cyfarfod chwarterol o uchafswm o 3 awr. Gall Cadeirydd penodedig y Grŵp benderfynu galw cyfarfodydd eithriadol, os yw amgylchiadau'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny a chyda chymeradwyaeth Prif Swyddog Gweithredol PackUK.
- Darllen a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd – amcangyfrifir 6 awr y chwarter.
- Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir ar MS Teams.

## Sgiliau a Phrofiad Cadeirydd y Grŵp Llywio

Rydym yn chwilio am Gadeirydd ar gyfer y Grŵp Llywio a all ddangos amrywiaeth o brofiad a gwybodaeth, o bob rhan o'r gadwyn werth.

**Meini Prawf Hanfodol**

- Profiad ar lefel Bwrdd fel Cadeirydd yn cefnogi, herio a darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol
- Sgiliau adeiladu perthnasoedd a chyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i ennyn parch, meithrin perthnasoedd partneriaid amrywiol yn gyflym a gweithio gydag a thrwy eraill i gyflawni amcanion
- Profiad o nodi a lliniaru risgiau strategol
- Profiad o waith tîm gyda'r gallu i weithio'n dda ac yn barchus gyda phobl yn unigol ac mewn grŵp, yn enwedig lle mae safbwyntiau'n amrywio
- Profiad o ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn swyddi sy'n wynebu'r cyhoedd, gyda thystiolaeth o ddefnyddio galluoedd dylanwadu a rhwydweithio i ffurfio partneriaethau cadarnhaol gydag ystod amrywiol o randdeiliaid
- Angerdd a brwdfrydedd dros weithio gyda'r Llywodraeth i fynd i'r afael â heriau'r sector pecynnu
- Didueddrwydd, tegwch a'r gallu i barchu natur gyfrinachol a sensitif rhai agweddau ar waith y grŵp

**Meini Prawf Dymunol**

- Profiad o arwain sefydliad i gyflawni arloesedd gwasanaeth pellach a gwelliant parhaus
- Profiad, dealltwriaeth a dadansoddiad o'r heriau sy'n wynebu gwahanol gyd-destunau casglu a phecynnu gwledydd y DU
- Profiad o gynlluniau pEPR mewn cyd-destunau rhyngwladol eraill

**Yn ogystal â'r uchod,** bydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth o'r meini prawf hanfodol canlynol mewn datganiad personol fel rhan o'r broses ymgeisio:

- Ymrwymedig a dibynadwy. Yn gallu darparu cyfranogiad o ansawdd uchel o fewn y cylch gorchwyl a'r amserlenni angenrheidiol.
- Gwydn a gwrthrychol. Yn gallu gofyn cwestiynau anodd a pheidio â brawychu'n hawdd pan gewch eich herio.

- Uniondeb, gallu cynnal preifatrwydd a chyfrinachedd gwybodaeth PackUK a gweithredu er ei fuddiannau gorau.
- Arweinydd â sgiliau cyfathrebu cryf sy'n gallu deall deinameg y grŵp a llywio'r grŵp trwy faterion ar y cyd, gan gyrraedd datrysiad mewn ffordd a fydd yn cael ei derbyn yn dda.
- Hanes profedig o gyfranogiad llwyddiannus yn y diwydiant. Yn gallu cyfeirio at bortffolio o gyflawniadau perthnasol gyda chanlyniadau a chyfeiriadau profedig, gyda chyfeiriad penodol at y gadwyn werth casglu a phecynnu.

## Gwybodaeth am y rôl a'r broses ymgeisio

**Sgiliau** – Rydyn ni'n chwilio am Gadeirydd ar gyfer y Grŵp Llywio a all ddangos amrywiaeth o sgiliau, profiad a gwybodaeth, o bob rhan o'r gadwyn werth.

**Ymrwymiad amser** - Bydd yr oriau a dreulir ar gyfartaledd hyd at (tua) 9 awr y chwarter

**Statws y penodiad** - Rôl wirfoddol heb dâl

**Hyd y tymor** - Un, dwy neu dair blynedd (i atal y grŵp rhag adnewyddu ar yr un pryd ac i ddarparu parhad) Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd cyfanswm yr amser a dreulir yn y swydd yn fwy na thri thymor, hyd at uchafswm o naw mlynedd.

**Amserlen ar gyfer y broses Datganiad o Ddiddordeb yma**

- Y broses ymgeisio yn agor — 11 Gorffennaf 2025
- Ffenestr y cais yn cau — 28 Gorffennaf 2025 (Hanner dydd)
- Y broses ddidoli'n dechrau – yr wythnos yn dechrau (WD) — 28 Gorffennaf 2025
- Cwblhau'r broses ddidoli — 01 Awst 2025
- Panel yn dewis cyfweleion o'r rhestr fer — 08 Awst 2025
- Anfon ceisiadau cyfweliad — 15 Awst 2025
- Cyfweliadau i ddigwydd WD — 25 Awst 2025
- Penderfyniad terfynol WD — 01 Medi 2025
- Rhannu'r canlyniadau gydag ymgeiswyr WD — 12 Medi 2025

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth**
Mae PackUK yn annog ceisiadau gan unigolion cymwys a thalentog o bob cefndir ac ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. Credwn mai dim ond os yw'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymdeithas y gall y grŵp hwn fod yn effeithiol.

Rydyn ni'n casglu data am nodweddion a chefndiroedd ymgeiswyr, gan gynnwys gwybodaeth am gefndiroedd addysgol a phroffesiynol pobl, fel y gallwn sicrhau ein bod yn denu ystod eang o bobl â chymwysterau addas i'r rolau gwirfoddol hyn a bod ein prosesau dethol yn deg i bawb. Heb y wybodaeth hon, mae'n ei gwneud hi'n anodd penderfynu a yw ein gwaith allgymorth yn gweithio, a yw'r broses ymgeisio yn cael effaith annheg ar rai grwpiau ac a yw newidiadau'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais, bydd Defra, sef yr adran sy'n cynnal Gweinyddwr y Cynllun ar ran llywodraethau datganoledig Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, yn casglu'ch ymateb. Defnyddir y data i gynhyrchu gwybodaeth reoli am amrywiaeth yr ymgeiswyr. Gallwch ddewis "dewis peidio â dweud" i unrhyw gwestiwn nad ydych chi am ei ateb. **Ni fydd y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei gweld gan y Paneli Asesu sy'n adolygu ceisiadau yn erbyn y meini**

**prawf a hysbysebir ac yn gwneud argymhellion penodi i Bwyllgor Gweithredol Gweinyddwr y Cynllun.**

Mae ein Siarter Preifatrwydd yma yn nodi'n fanylach sut y byddwn yn defnyddio eich data personol, a'ch hawliau. Fe'i gwneir o dan Erthyglau 13 a/neu 14 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR).

**Hyderus o ran Anabledd**
Mae Defra yn aelod o gynllun Hyderus o ran Anabledd y Llywodraeth ac mae'n defnyddio symbol y cynllun Hyderus o ran Anabledd, ynghyd â sefydliadau eraill o'r un anian, i ddangos ei ymrwymiad i arddangos arfer da tuag at y rhai a allai fod â diddordeb mewn gwneud cais am y rolau gwirfoddol hyn, sydd ag anabledd. Mae'r cynllun yn helpu i recriwtio a chadw pobl anabl.

Pan fyddwch chi'n gwneud cais, bydd cyfle gennych chi i ddewis a hoffech chi i'ch cais gael ei ystyried o dan y cynllun hwn.

**Addasiadau rhesymol**
Mae PackUK wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw ymgeiswyr ag anableddau, cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, neu anghenion eraill, dan anfantais sylweddol wrth wneud cais am gyfleoedd fel y rhain. Gall hyn gynnwys newid y broses benodi i alluogi pobl sy'n dymuno gwneud cais i wneud hynny.

Pan fyddwch chi'n gwneud cais, bydd cyfle gennych chi i ofyn am addasiadau rhesymol i'r broses benodi.

Os oes angen i chi wneud newid er mwyn i chi allu gwneud eich cais, dylech gysylltu â Phillippa Edmunds yn SASteeringGroup@defra.gov.uk cyn gynted â phosibl cyn y dyddiad cau i drafod eich anghenion.

Cwblhewch y cwestiwn 'Cefnogaeth Ychwanegol' yn y ffurflen gais hefyd i ddweud wrthym pa newidiadau neu gymorth y gallech fod eu hangen ymhellach ymlaen yn y broses benodi. Er enghraifft, efallai y bydd angen amser ychwanegol arnoch ar gyfer y cyfweliad, neu os ydych chi'n fyddar, Gweithiwr Proffesiynol Gwasanaeth Iaith.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Phillippa Edmunds yn SASteeringGroup@defra.gov.uk.

## Proses ymgeisio a dethol

**Sut i wneud cais**

I wneud cais am y rôl hon, dylid dychwelyd eich CV a'ch datganiad ategol i SASteeringgroup@defra.gov.uk **erbyn canol dydd ar 28 Gorffennaf 2025** gan nodi'r e-bost fel **Cadeirydd Grŵp Llywio Gweinyddwr y Cynllun**, yn y maes pwnc.

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd gyflwyno'r canlynol hefyd:

- Ffurflen Gwybodaeth Amrywiaeth a Gwrthdaro Buddiannau
- CV o ddim mwy na dwy ochr A4 yn amlinellu eich profiad, unrhyw gymwysterau proffesiynol a hanes cyflogaeth
- Datganiad ategol yn dangos sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol, gan roi enghreifftiau penodol (uchafswm o 750 gair).

**Trosolwg o'r broses ymgeisio**
Gwneir y penodiad hwn ar sail teilyngdod yn dilyn proses gystadleuaeth deg ac agored. Byddwn yn delio â'ch cais cyn gynted â phosibl a byddwn yn eich hysbysu ar gamau allweddol. Ein nod yw cwblhau'r broses erbyn 05 Medi 2025.

**Didoli cychwynnol**
Bydd Pwyllgor Gweithredol Gweinyddwr y Cynllun (SA ExCo) yn gyfrifol am y penodiad hwn a bydd yn cael ei ymgynghori ag ef ym mhob cam o'r broses benodi. Er mwyn eu cynorthwyo yn eu proses gwneud penderfyniadau, bydd panel asesu ar gyfer y rôl hon, sy'n cynnwys arbenigwyr pwnc, yn penderfynu, yn wrthrychol, pa ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, yn seiliedig ar y CV a'r datganiad ategol a gyflwynir gan ymgeiswyr. Ar gyfer y didoli hwn, bydd enwau'n cael eu golygu.

**Rhestr Fer**
Bydd canlyniadau'r broses hidlo gychwynnol yn cael eu rhannu gyda'r panel cyfweld. Bydd y panel yn cael ei gadeirio gan Bennaeth Gweinyddwr y Cynllun, a bydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant ac arbenigwr pwnc o raglen pEPR.

Yn y cyfarfod llunio rhestr fer, bydd y panel cyfweld yn asesu ceisiadau yn seiliedig ar ganlyniad y broses ddidoli, gan ddefnyddio'r meini prawf cymhwysedd i benderfynu pa ymgeiswyr sydd wedi bodloni'r meini prawf orau a phwy ddylid eu hargymell i fynd ymlaen i gyfweliad. Bydd y rhai a ddewisir ar gyfer cyfweliad yn cael gwybod drwy e-bost. Byddwch hefyd yn cael gwybod drwy e-bost os nad ydych wedi bod yn llwyddiannus.

**Cyfweliadau**
Cynhelir cyfweliadau drwy MS Teams oni bai bod rhesymau dros eu cynnal wyneb yn wyneb. Yna ymgynghorir â'r SA ExCo ynghylch argymhelliad y panel ynglŷn â'r penodiad i rôl y Cadeirydd.

**Cyfrinachedd a diogelwch**
Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus lofnodi cytundeb peidio â datgelu cyn y gallant fynychu cyfarfodydd Grŵp Llywio Gweinyddwr y Cynllun.

## Gwybodaeth ychwanegol i ymgeiswyr

**Egwyddorion bywyd cyhoeddus**

Mae Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a elwir hefyd yn Egwyddorion Nolan) yn berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio fel deiliad swydd gyhoeddus.

**1. Anhunanoldeb**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig.

**2. Uniondeb**

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus osgoi rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt yn amhriodol yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn ennill buddion ariannol neu fuddion materol eraill iddynt eu hunain, eu teulu, na'u ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasoedd.

**3. Gwrthrychedd**

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau'n ddiduedd, yn deg ac yn ôl teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na rhagfarn.

**4. Atebolrwydd**

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt gyflwyno eu hunain i'r craffu sy'n angenrheidiol i sicrhau hyn.

**5. Agoredrwydd**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid atal gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

**6. Gonestrwydd**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.

**7. Arweinyddiaeth**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain a thrin eraill â pharch. Dylent hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yn weithredol a herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.

**Cod ymddygiad**
Mae PackUK yn disgwyl i ddeiliad y swydd weithio i'r safonau personol a phroffesiynol uchaf. Darperir rhagor o wybodaeth yng nghylch gorchwyl Grŵp Llywio Gweinyddwr y Cynllun.

**Diwydrwydd dyladwy**
Fel rhan o'r broses benodi, gellir cynnal chwiliad i unrhyw fuddiannau a ddatganwch yn eich cais ac i unrhyw gyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwch.

**Rheoli buddiannau allanol ac ystyried materion enw da**
Disgwylir i ddeiliaid y rôl hon lynu wrth Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a'u cynnal. Cyn gwneud cais, dylech ystyried yn ofalus:

- unrhyw fuddiannau allanol a allai fod gennych

- unrhyw broblemau posibl ynghylch enw da sy'n deillio o'ch gweithredoedd yn y gorffennol neu ddatganiadau cyhoeddus a wnaethoch;
- a/neu - unrhyw rolau gwleidyddol sydd gennych neu ymgyrchoedd gwleidyddol rydych wedi'u cefnogi;

a allai godi cwestiynau am eich gallu i gyflawni'r rôl rydych chi'n gwneud cais amdani.

Gellir datrys llawer o wrthdaro buddiannau yn foddhaol. Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, bydd y panel yn mynd ar drywydd unrhyw wrthdaro posibl gyda chi yn ystod y cyfweliad, gan gynnwys unrhyw gynigion a allai fod gennych i'w lliniaru. Bydd hyn yn cael ei nodi yn eu cyngor i'r SA ExCo, pan fyddant yn eu cynghori am ymgeisydd(wyr) addas i'w penodi.

Gellir cyhoeddi manylion gweithgaredd gwleidyddol datganedig pan gyhoeddir y penodiad (nid yw gweithgaredd gwleidyddol yn rhwystr i benodiad ond rhaid ei ddatgan).

**Penodi a chyfnod swydd**
Mae penodiadau am y tymor a nodir yn yr hysbyseb hon, gyda'r posibilrwydd o ailbenodi am dymor pellach, yn ôl disgresiwn y SA ExCo. Nid oes rhagdybiaeth awtomatig o ailbenodi; dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun gan ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys amrywiaeth y grŵp a chydbwysedd y sgiliau a'r profiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd cyfanswm yr amser a dreulir yn y swydd yn fwy na thri thymor.

**Adborth**
Byddwn yn eich hysbysu o statws eich cais.

**Cwynion**
Ein nod yw prosesu pob cais cyn gynted â phosibl a thrin pob ymgeisydd â chwrteisi.

Cysylltwch â thîm llywodraethu PackUK yn SASteeringGroup@defra.gov.uk os hoffech wneud cwyn ynghylch eich cais. Byddant yn cydnabod eich cwyn ar ôl ei derbyn ac yn ymateb o fewn 15 diwrnod gwaith.

**Diogelu data**
Bydd Defra a PackUK yn defnyddio eich data yn unol â'i bolisi preifatrwydd. Mae'r Siarter Preifatrwydd yma yn nodi'n fanylach sut y byddwn yn defnyddio eich data personol, a'ch hawliau. Fe'i gwneir o dan Erthyglau 13 a/neu 14 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR).

**Manylion cyswllt**
Am drafodaeth gyfrinachol am y rôl i'ch helpu i benderfynu a ydych chi'n addas ar gyfer y cais a/neu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych, cysylltwch â:

Phillippa Edmunds yn SASteeringGroup@defra.gov.uk.